



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

# Sut i godi pryder

Gall unrhyw un godi pryder gyda ni, cyn belled â'u bod yn rhoi'r manylion sydd eu hangen arnom i'w ystyried ymhellach.

Cyhoeddwyd gyntaf: 5 Gorffennaf 2022

Diweddariad olaf: 7 Chwefror 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o [gofalcymdeithasol.cymru](https://gofalcymdeithasol.cymru) ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/sut-i-godi-pryder> am y fersiwn diweddaraf.

Gall unrhyw un godi pryder gyda ni, cyn belled â'u bod yn rhoi'r manylion sydd eu hangen arnom i'w ystyried ymhellach.

## **Os ydych yn pryderu y gallai plentyn neu oedolyn agored i niwed fod mewn perygl o niwed**

Dylech gysylltu â'ch adran gwasanaethau cymdeithasol yn ardal eich awdurdod lleol i roi gwybod am y pryderon hyn. Fel arall, gallwch ddefnyddio'r ddolen [Llywodraeth Cymru](#) hon i wneud eich adroddiad i'r bwrdd rhanbarthol diogelu plant neu oedolion.

## **Os ydych am wneud cwyn am wasanaeth gofal cofrestredig**

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n rheoleiddio'r gwasanaethau hyn. Byddwch yn gallu chwilio am fanylion cyswllt y gwasanaeth a chofrestru pryder trwy wefan [Arolygiaeth Gofal Cymru](#).

Gallwch hefyd gysylltu â'r gwasanaeth cofrestredig yn uniongyrchol i fynegi eich pryder ac efallai y gallant ddatrys y broblem.

## **Os ydych am wneud cwyn am gysylltiad y gwasanaethau cymdeithasol â'ch teulu**

Gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am asesu'r gofynion ar gyfer defnyddwyr gofal a chymorth a threfnu i'r rhain gael eu darparu. Gall hyn gynnwys dyrannu gweithiwr cymdeithasol i'ch teulu chi neu'ch teulu. Dylech gysylltu â nhw'n uniongyrchol os oes gennych unrhyw bryderon a byddwch yn gallu cyrchu eu gweithdrefn gwyno ffurfiol. Nid oes gan Gofal Cymdeithasol Cymru unrhyw awdurdod yn y maes hwn.

Os ydych yn anhapus â chanlyniad eu proses gwyno efallai y gallwch godi hyn gydag Ombwdsmon Cymru. Mae'n bosibl y byddwn yn gallu edrych ar elfennau o'ch cwyn y mae'r awdurdod lleol wedi'u cadarnhau.

## **Os ydych am wneud datgeliad gwarchoddedig am eich cyflogwr**

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn sefydliad dynodedig a restrir o dan Orchymyn Personau Rhagnodedig 2014. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw weithiwr yn y sector gofal cymdeithasol gyflwyno adroddiad i ni, a elwir yn 'chwythu'r chwiban' os ydynt yn amau bod gamweddau yn eu sefydliad.

Os hoffech siarad â ni a throsglwyddo gwybodaeth i ni am gamweddau yn y sector gofal cymdeithasol, cysylltwch â ni ar [aiy@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:aiy@gofalcymdeithasol.cymru) . Gallwn sicrhau eich bod yn aros yn ddiennw.

Mae Protect yn [elusen chwythu'r chwiban](#) a all roi cyngor i chi.